OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3103 (Cy.286)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*21 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 55(4), 56(3), 57(7), (9) a (10) a 120(2) o Ddeddf Addysg 2005(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "adroddiad o arolygiad" ("*inspection report*") yw'r adroddiad ar arolygiad y mae'n ofynnol i'r Prif Arolygydd ei wneud o dan adran 57(7);

ystyr "cynllun gwaith" ("*action plan*") yw'r datganiad ysgrifenedig sy'n ymateb i adroddiad o arolygiad y cyfeirir ato yn adran 57(9) a rheoliad 6.

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**),

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005;

ystyr "gwyl y banc" ("*bank holiday*") yw diwrnod sy'n wyl y banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn wyl y banc;

(**1**) 2005 p.18. Daw adrannau 55-57 i rym ar 1 Ebrill 2007: O.S. 2006/1338 (Cy.130 (C.45). Ar gyfer "*prescribed*" a "*regulations*", *gweler* adran 55(8).
(**2**) 1998 p.30.
(**3**) 1971 p.80.

ystyr "y Prif Arolygydd" ("*the Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru(**4**); ac

mae i "service provider" a "*relevant provider*" yr ystyron a roddir iddynt gan adrannau 55 a 56 yn eu tro;

(2) Os yw'n ofynnol, o dan y Rheoliadau hyn, i rywbeth gael ei wneud gan gyfeirio at gyfnod o amser sy'n cael ei gyfrif o ddyddiad penodol, mae'r cyfnod hwnnw'n dechrau yn union ar ôl y dyddiad hwnnw.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at adrannau (heb fwy) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2005.

Arolygiadau cyntaf

3.—(1) Mae'r Rheoliad hwn yn gymwys yn achos darparydd gwasanaeth neu ddarparydd perthnasol na chafodd ei archwilio o'r blaen naill ai o dan adran 35 neu 35A o Ddeddf 1998(**5**) nac o dan adran 55 neu 56.

(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, mae'r darparydd gwasanaeth neu'r darparydd perthnasol i gael ei arolygu o dan adran 55 neu 56 (yn ôl y digwydd), o fewn cyfnod o chwe blynedd o'r dyddiad pryd y daeth y darparydd gwasanaeth neu'r darparydd perthnasol gyntaf yn ddarparydd o'r fath.

Bylchau rhwng arolygiadau olynol

4.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 3, rhaid i'r Prif Arolygydd wneud arolygiad, o dan adran 55, ar bob darparydd gwasanaeth, ac o dan adran 56 ar bob darparyddperthnasol, ar ôl pob bwlch o chwe blynedd.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae bylchau yn cychwyn o'r dyddiad pryd y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf ar y darparydd gwasanaeth (o dan adran 35 o Ddeddf 1998 neu adran 55) neu ar y darparydd perthnasol (o dan adran 35A o Ddeddf 1998 neu adran 56).

Y cyfnod ar gyfer paratoi adroddiad o arolygiad

5. Y cyfnod y mae adroddiad o arolygiad i gael ei baratoi o'i fewn yw deg a thrigain o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad pryd y cwblhawyd yr arolygiad arno.

Dyletswydd i baratoi cynllun gwaith

6. Rhaid i berson sy'n cael arolygiad dan adran 55 neu 56 baratoi adroddiad ysgrifenedig sy'n ymateb i'r adroddiad o arolygiad gan osod allan y camau fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad o arolygiad neu i weithredu unrhyw argymhellion a geir yn yr adroddiad, a'r graddfeydd amser ar gyfer cymryd y camau hynny neu ar gyfer gweithredu'r argymhellion hynny (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "cynllun gwaith").

Y cyfnod ar gyfer paratoi cynllun gwaith

7. Y cyfnod y mae'n rhaid i berson sy'n cael archwiliad dan adran 55 neu 56 baratoi cynllun gwaith o'i fewn yw hanner cant o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y cafodd y person hwnnw gopi o'r adroddiad o arolygiad o dan adran 57(7)(b).

(**4**) *Gweler* adran 73 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, p.21.
(**5**) 1998 p.30. Diwygiwyd adran 35 gan baragraff 77 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, a mewnosodwyd adran 35A gan adran 81 o'r Ddeddf honno. Diddymir y ddwy adran gan Ddeddf 2005, Atodlen 19, Rhan 1, sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2007: O.S. 2006/1338 (Cy.130) (C.45).